***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 12

# CYFYNGIADAU AR DRAFODIADAU A RECRIWTIO ETC. GAN GYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Dehongli paragraffau 1 a 7*

6 (1) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr "caffaeliad neu warediad tir perthnasol" yw caffaeliad neu warediad tir pan fo'r gydnabyddiaeth am y caffaeliad neu'r gwarediad yn fwy na £150,000.

(2) Yn is-baragraff (1), mae'r cyfeiriad at gaffaeliad neu warediad tir yn cynnwys—

(a) caffael neu roi neu waredu unrhyw fuddiant mewn tir,

(b) ymrwymo i gontract i gaffael neu waredu tir neu i gaffael neu roi neu waredu unrhyw fuddiant mewn tir, ac

(c) caffael neu roi opsiwn i gaffael unrhyw dir neu unrhyw fuddiant mewn tir.

(3) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr "contract neu gytundeb perthnasol" yw—

(a) unrhyw gontract, ac eithrio contract cyfalaf, y mae'r gydnabyddiaeth oddi tano yn fwy na £150,000—

(i) pan fo cyfnod y contract yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu

(ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo o dan delerau'r contract,

(b) unrhyw gontract cyfalaf y mae'r gydnabyddiaeth oddi tano yn fwy na £500,000, neu

(c) unrhyw gytundeb fframwaith o fewn ystyr rheoliad 33(2) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (O.S. 2015/102)—

(i) pan fo cyfnod y cytundeb fframwaith yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu

(ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo o dan delerau'r cytundeb fframwaith.

(4) Yn is-baragraff (3), ystyr "contract cyfalaf" yw contract y mae'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy gan y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro mewn cysylltiad ag ef yn wariant cyfalaf at ddibenion Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) (cyllid cyfalaf; gweler adran 16 o'r Ddeddf honno).

(5) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr "caffaeliad cyfalaf perthnasol" yw caffaeliad cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciad mewn unrhyw gorff corfforedig y mae'r gydnabyddiaeth mewn perthynas ag ef yn fwy na £500,000, ac eithrio caffaeliad cyfalaf benthyciad pan fo—

(a) caffaeliad y cyfalaf benthyciad yn fuddsoddiad at ddibenion rheoli mewn modd darbodus faterion ariannol y cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, a

(b) y buddsoddiad yn cael ei ychwanegu at—

(i) y rhestr swyddogol (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (p. 8); gweler adran 103(1) o'r Ddeddf honno), neu

(ii) rhestr gyfatebol a gedwir gan awdurdod mewn Gwladwriaeth AEE.

(6) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr "grant neu gymorth ariannol arall perthnasol" yw grant neu gymorth ariannol arall (ac eithrio benthyciad) o fwy na £150,000.

(7) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr "benthyciad perthnasol" yw benthyciad o fwy na £150,000—

(a) pan fo cyfnod y benthyciad yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu

(b) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo o dan delerau'r benthyciad.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi ffigur gwahanol yn lle'r un a nodir am y tro yn is-baragraff (1), (3)(a) neu (b), (5), (6) neu (7).